Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Garden City Childcare

**Canolfan Ieuenctid a Chymunedol Sealand**
**Sandy Lane**
**Garden City**
**Glannau Dyfrdwy**
**Sir y Fflint**
**CH5 2JH**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2023**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**ac**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Garden City Childcare

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Garden City Childcare |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Sesiynol |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Gail Bennett a Jennifer Rochfort |
| Person â gofal | Toni Davies a Jennifer Evans |
| Nifer y lleoedd | 19 |
| Ystod oedran y plant | 2-4 mlwydd oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | Wyth o blant 3 mlwydd oed a phedwar o blant 4 mlwydd oed |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | Pump o blant |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i ddydd Gwener, 9:00am-11:30am a 12:15pm-2:45pm |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| A yw'r lleoliad yn gweithredu'r Cynnig Gofal Plant? | Ydy |
| Cynnig Rhagweithiol y Gymraeg | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n dangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Hwn yw'r arolygiad cyntaf ers cofrestru |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Hwn yw'r arolygiad cyntaf ers cofrestru |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 27/03/2023 |
| Mae'r rhan fwyaf o blant yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf, ac nid yw unrhyw blant yn siarad Cymraeg gartref. | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Magu hyder plant mewn defnyddio’r Gymraeg

A2 Gwella’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) plant

A3 Ffurfioli prosesau rheoli perfformiad

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r plant yn cyfathrebu'n hyderus wrth ystyried beth maen nhw ei eisiau, eu hwyliau a'u hanghenion. Er enghraifft, mae plant yn mwynhau cyflwyno'u hunain ac yn dangos beth hoffent chwarae ag ef. Mae bron pob un o'r plant yn mynd at ymarferwyr yn hyderus i wneud eu ceisiadau. Er enghraifft, gofynnodd plentyn i ymarferwyr yn gwrtais a allai wneud cacennau, a dyma beth a wnaeth.

Mae bron pob un o'r plant yn ymdawelu'n gyflym wrth iddynt gael eu cyfarch yn wresog gan ymarferwyr cyfeillgar. Maent yn gyfarwydd â'r arferion dyddiol ac yn dangos sut maent yn tacluso'u teganau.

Mae bron pob un o'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'u ffrindiau a'r rhai sy'n gofalu amdanynt. Maent yn dysgu am garedigrwydd ac empathi. Er enghraifft, mae plant yn rhoi'r cacennau y maent yn eu pobi i grŵp cymunedol sy'n dosbarthu bwyd i bobl ddigartref, ac yn dathlu'r achlysur trwy ganu eu hoff ganeuon. Maent yn dysgu cymryd eu tro ac yn rhannu eu teganau'n dda. Er enghraifft, gwnaeth plentyn nyth o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu, a dweud wrth ei ffrind ei fod wedi gwneud y nyth iddo ef. Mae bron pob un o'r plant yn mwynhau achlysur cymdeithasol amser byrbryd, yn dangos moesau da ac yn eistedd wrth y bwrdd yn aeddfed.

Mae bron pob un o'r plant yn ddysgwyr gweithgar a chwilfrydig. Er enghraifft, mae grŵp o ffrindiau'n cael llawer o hwyl yn rholio teiars bach wedi'u hailgylchu i lawr ramp chwarae meddal, gan arbrofi â chyflymdra a mudiant i weld teiars pwy allai gyrraedd y diwedd gyflymaf. Yn ystod gweithgaredd pobi, mae plant yn enwi'r cynhwysion yn gywir ac yn cymryd eu tro i droi'r cymysgedd. Mae llawer o blant yn datblygu eu dychymyg yn dda yn y gornel gartref, gan gymryd arnynt eu bod yn gwneud brechdanau â'r propiau bwyd a chyfrif y ceirios pren yn y bowlen. Mae plant eraill yn mwynhau bod yn egnïol yn yr awyr agored. Maent yn pedlo treiciau yn hyderus ac yn llenwi gwahanol gynwysyddion â dŵr i ymarfer eu medrau arllwys. Mae ychydig o blant yn mwynhau rhoi dŵr i'r blodau ac mae plentyn yn torri'r glaswellt yn frwdfrydig â pheiriant torri gwair sy'n gweithio â batri. Mae bron pob un o'r plant yn datblygu eu creadigwydd yn dda trwy amrywiaeth o weithgareddau crefft a gynigir. Er enghraifft, mae plant yn dangos yn gyffrous sut lliwion nhw dempledi papur siâp ŵy i baratoi i ddathlu'r Pasg.

Mae bron pob un o'r plant yn datblygu eu hannibyniaeth yn dda. Maent yn gweithio fel tîm i greu eu cwrs rhwystrau eu hunain ac yn helpu ei gilydd i gerdded ar draws y planciau pren. Mae llawer o blant yn dal ati i ganolbwyntio yn briodol. Er enghraifft, cymerodd plentyn ei amser i ddefnyddio gêm bysgota fagnetig a dyfalbarhau i ddal y pysgod. Mae ychydig o blant yn mwynhau amser tawel ac yn fodlon eistedd ar eu pen eu hunain i archwilio'r llyfrau a gynigir. Mae bron pob un o'r plant yn ymateb yn dda i gyfleoedd i ddatblygu medrau annibyniaeth. Er enghraifft, maent yn paratoi eu hunain yn dda i chwarae yn yr awyr agored. Mae bron pob un o'r plant yn gwneud pethau drostynt eu hunain yn llwyddiannus, ac mae hyn yn eu helpu i ddatblygu eu creadigrwydd i arbrofi a bod yn ddychmygus.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae bron pob un o'r plant yn chwarae gyda'i gilydd yn bwrpasol, a llawer ohonynt yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. O ganlyniad, mae llawer ohonynt yn datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a chorfforol yn dda, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu dysgu a'u medrau gwybyddol.

Mae bron pob un o'r plant yn gwrando ar gyfarwyddiadau'n astud ac yn gweithredu arnynt yn gynhyrchiol. Er enghraifft, maent yn dyfalbarhau'n ddiwyd wrth adeiladu cestyll a thyrau yn y tywod. Mae llawer ohonynt yn cyfathrebu'n glir wrth ymateb i'w gilydd, gan fynegi teimladau a rhannu syniadau. Er enghraifft, wrth chwarae gwneud bwyd, maent yn gofyn i'w gilydd beth hoffen nhw yn eu brechdanau cyn paratoi'r bwyd i'w gilydd, a'i weini â phaned o de. Mae bron pob un o'r plant yn gwneud penderfyniadau synhwyrol ynglŷn â pha ddillad sydd fwyaf addas i'w gwisgo er mwyn gweithio yn yr awyr agored, ac mae mwyafrif y plant yn defnyddio geiriau a mynegiannau yn ystyrlon. Yn ychwanegol, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymateb yn frwdfrydig i gerddoriaeth ac yn canu a pherfformio'n egnïol wrth chwarae offerynnau a theithio o gwmpas yr ardal awyr agored fel adar a phryfed.

Mae llawer o blant yn datblygu eu medrau darllen cynnar yn dda. Er enghraifft, maent yn trin a thrafod llyfrau yn hyderus, gan eu dal y ffordd gywir i fyny, yn troi tudalennau ac yn mwynhau gwrando ar storïau'n cael eu darllen iddynt. Mae llawer o blant yn mwynhau creu marciau â gwahanol gyfryngau fel pinnau ffelt, sialc a phaent, ac mae tua hanner ohonynt yn ennill dealltwriaeth ystyrlon o ddiben ysgrifennu. Er enghraifft, maent yn ceisio ysgrifennu rhestrau bwyd ac yn arwyddo eu henwau mewn cardiau cyfarch.

Mae llawer o blant yn datblygu medrau mathemategol da ac yn defnyddio iaith fathemategol mewn cyd-destunau cywir. Er enghraifft, maent yn enwi ac yn tynnu llun gwahanol rifau a siapiau 2D yn y tywod ac ar bapur, ac yn cymharu maint gwrthrychau gan ddefnyddio geirfa fathemategol fel 'bach' a 'mawr', 'hir' a 'byr'. Gall llawer o blant ddweud rhifau yn eu trefn i ddeg, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cyfrif gwrthrychau'n gywir i bump. Mae llawer ohonynt yn dewis offer a deunyddiau perthnasol wrth arbrofi a datrys problemau, er enghraifft wrth ystyried sut orau i symud dŵr o un lle i un arall, a faint o sgwpiau o dywod sydd eu hangen i lenwi twb.

Mae llawer o blant yn datblygu eu medrau corfforol a datrys problemau yn dda iawn trwy ystod o weithgareddau diddorol dan do ac yn yr awyr agored. Er enghraifft, maent yn datrys problem ynghylch sut i symud o un ardal i un arall heb gamu ar y llawr, ac yn dewis gwahanol lwybrau i dop y ffrâm ddringo cyn gwibio i lawr y llithren. Mae llawer o blant yn mwynhau bod yn greadigol, er enghraifft wrth greu adar a nythod gan ddefnyddio toes a deunyddiau addurnol.

Yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad, mae ychydig o blant yn datblygu eu medrau Cymraeg yn ddigonol. Maent yn defnyddio geiriau syml amser byrbryd ac yn dweud eu rhifau i dri gydag ychydig bach o gymorth. Mae mwyafrif o blant yn manteisio ar, ac yn defnyddio, ystod o offer (TGCh) yn briodol, er enghraifft wrth ddefnyddio dyfais i recordio eu lleisiau eu hunain.

Mae mwyafrif y plant yn dechrau datblygu dealltwriaeth o eirfa Gymraeg sylfaenol. Maent yn defnyddio rhifau syml a geiriau ac ymadroddion elfennol yn ystod amser byrbryd, ond nid yw eu hyder i ddefnyddio'r iaith wedi'i ddatblygu'n ddigonol, ar y cyfan.

**Gofal a datblygiad:  Da**

Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda. Mae ganddynt ymagwedd gyfeillgar a gofalgar, ac maent yn rheoli rhyngweithio â phlant yn gadarnhaol. Mae ymarferwyr yn canmol plant yn gyson am eu hymdrechion, ac yn dathlu eu cyflawniadau.

Mae ymarferwyr yn deall eu cyfrifoldebau i gadw plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau priodol yn dda i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn annog plant i fwyta'n iach, bod yn egnïol a chwarae yn yr awyr agored yn yr awyr iach. Maent yn annog plant i olchi eu dwylo, ac mae hyn yn eu helpu i ddatblygu eu harferion hylendid personol yn effeithiol. Mae trefniadau'r lleoliad i ddiogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder. Mae ymarferwyr yn cwblhau cofnodion damweiniau a digwyddiadau yn gywir, a chaiff y rhain eu llofnodi gan rieni a gofalwyr i ddangos tystiolaeth eu bod yn cael gwybod amdanynt. Mae ymarferwyr yn cynnal driliau tân i wneud yn siŵr fod plant yn gwybod beth i'w wneud os bydd yn rhaid iddynt adael y safle mewn argyfwng. Mae gweithdrefnau newid clytiau yn cyd-fynd â chanllawiau presennol ar reoli heintiau. Mae hyfforddiant cymorth cyntaf a diogelu yn gyfredol ac yn addas ar gyfer oedrannau'r plant sy'n derbyn gofal.

Mae ymarferwyr yn ymatebol i blant. Maent yn gwrando ar eu dewisiadau a'u ceisiadau, ac yn eu parchu. Mae'r rhyngweithio yn gadarnhaol, gan ddangos cynhesrwydd a charedigrwydd. Mae ymarferwyr wedi ymrwymo i ddarparu ystod eang o gyfleoedd i ddatblygu chwarae a dysgu plant yn llwyddiannus. Ar hyn o bryd, maent yn cyflwyno ac yn cyflenwi'r Cwricwlwm i Gymru ar gyfer lleoliadau meithrin nas cynhelir a ariennir. Maent yn canolbwyntio'n dda ar ddiddordebau'r plentyn, ei anghenion unigol a'i ddatblygiad.

Mae ymarferwyr yn darparu cymorth addas a sensitif ar gyfer plant sydd efallai ag angen dysgu ychwanegol. Maent yn cydweithio'n dda i fagu hyder plant. Mae ymarferwyr yn trefnu cyfleoedd diddorol, sy'n cael eu harwain gan ddewisiadau a diddordebau'r plant. Maent yn olrhain cynnydd plant yn briodol ac yn defnyddio'r arsylwadau hyn i greu profiadau chwarae a dysgu ystyrlon ar gyfer y plant. Maent yn cynllunio'n dda ar gyfer y camau nesaf yn natblygiad y plant ac yn adolygu cynnydd yn rheolaidd.

Mae ymarferwyr yn rhoi cyfleoedd amrywiol a gwerthfawr i blant ddysgu am y byd o'u cwmpas. Maent yn pobi ac yn creu eitemau crefft ar gyfer grwpiau cymunedol lleol ac yn dysgu am natur trwy edrych ar dylluan, gan nodi ei ffurf a'i harddwch. Maent yn archwilio dathliadau a gwyliau yn llwyddiannus trwy amrywiaeth o weithgareddau crefft, cyfleoedd i flasu bwyd o wahanol wledydd a storïau o wahanol ddiwylliannau.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol ac yn cynllunio cwricwlwm sy'n cynnig profiadau diddorol a gwerthfawr dan do ac yn yr awyr agored, gan ennyn diddordeb plant yn llwyddiannus. Maent yn modelu gweithgareddau ac yn cefnogi chwarae rhydd plant yn dda. Er enghraifft, maent yn darparu cyfleoedd i blant ddatblygu eu medrau creadigol a datrys problemau trwy ddewis, mesur a chymysgu cynhwysion i bobi cacennau. O ganlyniad, mae llawer o blant yn cynnal diddordeb mewn tasgau am gyfnodau estynedig.

Mae gan ymarferwyr berthynas weithio iach gyda phlant, ac maent yn eu cynorthwyo a'u hannog yn fedrus. Maent yn myfyrio ar eu harfer yn gysylltiedig ag egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru, ac yn gwerthuso'n ofalus pryd a sut i ymyrryd er mwyn cyfoethogi'r dysgu digymell. Er enghraifft, maent yn herio'r plant i dorri, pwyso ac ymestyn toes i greu nythod adar ac yn arsylwi wrth i'r plant esblygu'r gweithgaredd i greu adar ar gyfer y nythod y maent wedi'u creu. Maent yn gofyn cwestiynau agored a pherthnasol yn aml, gan annog plant i feddwl a darganfod drostynt eu hunain. Maent yn gofyn i'r plant sut byddent yn teithio'n ddiogel ar hyd y ffrâm ddringo ac yn eu herio i ddarganfod pa wrthrychau sy'n arnofio a pha rai sy'n suddo.

Mae'r ddarpariaeth i gefnogi medrau llythrennedd a rhifedd plant yn effeithiol, ar y cyfan. Mae ymarferwyr yn canolbwyntio'n dda ar wella medrau siarad y plant trwy ailadrodd geirfa ac ymadroddion a chanu'n fywiog. Mae mwyafrif y plant yn defnyddio ystod o offer TGCh yn briodol, er enghraifft i wrando ar negeseuon wedi'u recordio gan ymarferwyr, sy'n eu helpu i ddeall gwahanol dasgau. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i blant ddatblygu ystod ddigon eang o fedrau TGCh yn gyfyngedig.

Mae ymarferwyr yn modelu ac yn cymell plant i greu marciau ag amrywiaeth o gyfryngau, ac yn eu hannog i gyfrif a didoli gwrthrychau, i enwi siapiau a chymharu meintiau gwahanol wrthrychau. Er enghraifft, ar ôl darganfod neidr gantroed ar yr iard, mae'r ymarferwyr yn annog y plant i arsylwi, disgrifio ac amcangyfrif faint o goesau sydd ganddi. Fodd bynnag, nid yw'r cyfleoedd i blant ddatblygu eu hyder wrth ddefnyddio geiriau ac ymadroddion Cymraeg wedi'u datblygu cystal.

Mae ymarferwyr yn datblygu gweithdrefnau asesu effeithiol ac yn defnyddio'r wybodaeth i gynllunio ar gyfer y camau nesaf mewn dysgu yn bwrpasol. Maent yn datblygu cyfleoedd i annog annibyniaeth plant yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn disgwyl iddynt weini bwyd a diod iddyn nhw eu hunain amser byrbryd a thacluso ar ôl hynny. Maent yn annog plant i gymryd eu tro a dweud 'os gwelwch yn dda' a 'diolch' er mwyn deall pwysigrwydd rhannu a bod yn gwrtais â'ch ffrindiau.

Mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i blant ddatblygu eu medrau corfforol. Er enghraifft, maent yn annog plant i ddringo a balansio, reidio beiciau, taflu a dal peli a defnyddio amrywiaeth o offer i adeiladu a thrwsio pethau. Maent yn darparu gweithgareddau effeithiol i ddatblygu medrau creadigol plant, fel paratoi prydau bwyd yn y gegin, arbrofi â thoes, a chyfansoddi a pherfformio gyda'r offerynnau taro.

Mae ymarferwyr yn datblygu medrau ysbrydol, moesol a chymdeithasol llwyddiannus ymhlith y plant. Maent yn dathlu amrywiaeth yn briodol trwy astudio gwyliau arbennig,

fel y Flwyddyn Newydd Dsieineaidd. Caiff plant gyfleoedd gwerthfawr i ddysgu am eu treftadaeth Gymreig. Er enghraifft, maent yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi, ac mae ganddynt arddangosfeydd Cymraeg, a llyfrau Cymraeg sydd wedi'u lleoli ym mhob ardal ddysgu sy'n helpu hyrwyddo dealltwriaeth o hunaniaeth Gymreig. Mae cyfleoedd gwerthfawr i ddysgu am ofalu am bethau byw. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn annog plant i roi dŵr i blanhigion a rhoi bwyd allan i'r adar yn ardaloedd awyr agored y lleoliad.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae arweinwyr yn darparu amgylchedd diogel a glân lle gall plant chwarae'n rhydd. Mae'r amgylchedd yn ddiogel, ac yn cael ei gynnal yn dda dan do ac yn yr awyr agored, fel ei gilydd. Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn diwallu anghenion y plant ac yn galluogi bron pob un o'r plant i gyrraedd eu llawn botensial.

Mae arweinwyr yn gwneud yn siŵr fod asesiadau risg yn nodi peryglon posibl yn briodol, ac yn rhoi gweithdrefnau ar waith i reoli'r risgiau hyn yn effeithiol. Maent yn dilyn arferion hylendid boddhaol a mesurau addas ar gyfer rheoli heintiau, sy'n helpu lleihau unrhyw risgiau i iechyd a diogelwch plant. Mae arweinwyr yn gwneud yn siŵr fod pawb yn deall eu cyfrifoldebau o ran diogelwch a lles plant. Maent yn sicrhau bod gwybodaeth glir ar gael i bawb am sut yr ymdrinnir ag argyfyngau. Mae ymarferwyr yn goruchwylio plant yn dda ar draws holl ardaloedd y lleoliad.

Mae cynllun yr ardaloedd chwarae yn hyrwyddo annibyniaeth plant yn llwyddiannus, gan eu galluogi i ddefnyddio teganau ac adnoddau yn hawdd. Ceir detholiad da o adnoddau wedi'u hailgylchu ac adnoddau naturiol i ddatblygu medrau synhwyraidd, iaith, rhifedd a hunanymwybyddiaeth plant. Mae corneli cysurus deniadol yn galluogi plant i orffwys a chael ychydig o amser tawel. Mae digonedd o deganau, adnoddau a dodrefn sy'n addas ar gyfer oedrannau'r plant sy'n derbyn gofal. Mae arweinwyr yn hyrwyddo ymwybyddiaeth plant am y byd o'u cwmpas a'r gymdeithas ehangach yn effeithiol. Er enghraifft, mae doliau a modelau bach yn dangos pobl o wahanol ddiwylliannau. Mae arweinwyr wedi prynu adnoddau newydd ac wedi datblygu'r ardal chwarae yn yr awyr agored, gan roi mwy o gyfleoedd i blant chwarae yn yr awyr iach ym mhob tywydd. Mae'r ardal hon yn hygyrch i blant ei defnyddio'n rhydd trwy gydol y dydd.

Mae arweinwyr yn darparu ardal ddynodedig ar gyfer eitemau personol plant, gan greu ymdeimlad o berthyn. Maent yn cyflwyno gwaith celf plant yn daclus gan ddangos bod eu hymdrechion yn cael eu gwerthfawrogi. Er enghraifft, mae plant wedi bod yn archwilio thema blodau a lliwiau. Mae arddangosfeydd hyfryd o baentiadau'r plant o'r blodau maent yn eu gweld yn y lleoliad yn addurno'r ardal chwarae.

Mae'r ardal awyr agored wedi'i threfnu'n dda gydag ystod dda o offer a chyfarpar dringo i blant ddewis o'u plith, a datblygu eu medrau corfforol a'u medrau echddygol manwl. Mae arweinwyr yn gwneud yn siŵr fod plant yn cael cyfle i ddysgu am y byd naturiol, ac wedi trefnu ardaloedd er mwyn iddynt ddysgu am blannu, tyfu blodau a darganfod pryfed.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Ceir ethos cynnes a chroesawgar yn y lleoliad. Mae arweinwyr wedi creu a rhannu gweledigaeth glir yn seiliedig ar ddarparu amgylchedd dysgu gofalgar a difyr ar gyfer yr holl blant. Mae synnwyr clir o waith tîm yn amlwg, ac mae pob un o'r ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol ac yn cynorthwyo'i gilydd yn dda.

Mae'r lleoliad yn cydymffurfio â rheoliadau gofal plant a gofal dydd, ac yn bodloni'r safonau gofynnol cenedlaethol. Ceir datganiad clir o ddiben sy'n rhoi darlun cywir o'r lleoliad, gan alluogi rhieni i wneud penderfyniadau gwybodus am addasrwydd y lleoliad ar gyfer eu plentyn. Mae arweinwyr yn datblygu diwylliant hunanwerthuso. Maent yn sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i farn pawb sy'n gysylltiedig â'r lleoliad i wella'r ddarpariaeth a phrofiadau plant. Er enghraifft, maent yn dilyn cyngor gan dîm yr awdurdod lleol o ran datblygu'r arferion arsylwi ac asesu er mwyn llywio'r camau nesaf yn natblygiad plant yn well.

At ei gilydd, mae gan arweinwyr drefniadau priodol ar gyfer monitro a dilysu gwaith y lleoliad. Maent yn nodi cryfderau'r lleoliad a'i feysydd i'w gwella yn effeithiol, er enghraifft gwella'r ddarpariaeth i ymestyn medrau creadigol a chorfforol y plant trwy brynu offer newydd. O ganlyniad, mae medrau corfforol a hyder y plant yn datblygu'n dda. Mae'r arweinwyr yn dilyn prosesau diogel, trylwyr ac amserol ac yn darparu cymorth da ar gyfer sefydlu ymarferwyr newydd. Mae ganddynt brosesau addas ar gyfer goruchwylio a gwerthuso gwaith ymarferwyr, sy'n arwain at dargedau cytunedig priodol. Fodd bynnag, nid yw'r prosesau hyn wedi cael eu ffurfioli'n ddigon trylwyr i werthuso cynnydd yr ymarferwyr yn gyson.

Mae arweinwyr yn blaenoriaethu gwariant cyllideb a grantiau yn erbyn targedau yn effeithiol, ac yn dyrannu adnoddau'n ddoeth. Mae hyn yn sicrhau bod yr holl ymarferwyr yn meddu ar gymwysterau da ac yn elwa ar hyfforddiant, fel datblygu annibyniaeth plant a hyfforddiant anghenion dysgu ychwanegol i ddiwallu anghenion plant. O ganlyniad, mae arweinwyr yn hyrwyddo profiadau cyffrous a gwerthfawr ar gyfer y plant.

Mae arweinwyr yn datblygu ystod o bartneriaethau buddiol gyda rhieni, grwpiau cymunedol ac asiantaethau allanol sy'n gwella ansawdd y ddarpariaeth a'r deilliannau ar gyfer plant. Er enghraifft, mae rhieni'n teimlo bod croeso iddynt yn y lleoliad, ac maent yn gwerthfawrogi'r ffaith fod gwybodaeth bwrpasol am eu plentyn yn cael ei chyfnewid yn rheolaidd trwy gyswllt o ddydd i ddydd a thrwy gyfryngau cymdeithasol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://arolygiaethgofal.cymru) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn gwerthuso effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 05/06/2023

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 05 Mehefin 2023